www.xtrapapers.com

| Cyfenw<br>*Surname* | Rhif y Ganolfan<br>*Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd<br>*Candidate Number* |
|---|---|---|
| Enwau Eraill<br>*Other Names* | | 0 |

CBAC
WJEC

**TGAU**

4554/02

# UNED 4
# *UNIT 4*

# CYMRAEG AIL IAITH
# *WELSH SECOND LANGUAGE*

## DARLLEN AC YSGRIFENNU
## *READING AND WRITING*

## HAEN UWCH
## *HIGHER TIER*

P.M. DYDD MAWRTH, 11 Mehefin 2013
*P.M. TUESDAY, 11 June 2013*

1 awr/*1 hour*

| Arholwr yn unig | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cwestiwn** | **Darllen** | **Ysgrifennu** |
| **1** | | |
| **2** | | |
| **3** | | |
| **4** | | |

**CYFARWYDDIADAU**
***INSTRUCTIONS***

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio pensil na beiro gel. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.
*Use black ink or black ball-point pen. Do not use pencil or gel pen. Do not use correction fluid.*

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y bylchau ar ben y dudalen hon.
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*

Atebwch **bob** cwestiwn.
*Answer **all** questions.*

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau a ddarperir yn y papur cwestiynau hwn.
*Write your answers on the lines provided in this question paper.*

**GWYBODAETH**
***INFORMATION***

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

Nodir y marciau a ddyfernir ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau fel a ganlyn: [✓ = 2] ac ati.
*Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

4554
020001

J U N 1 3 4 5 5 4 0 2 0 1

ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

VP*(S13-4554-02)

www.xtrapapers.com



**1.** Darllenwch y ddau ddyddiadur yma a gwnewch y tasgau sy'n dilyn **yn Gymraeg**.
*Read these two diaries and then complete the tasks that follow* ***in Welsh****.* [16 + ✓ = 4] = **[20]**

Dyddiadur Rhiannon

Dydd Llun
Dechrau diflas iawn i'r wythnos – gwasanaeth yn y neuadd fawr. Does neb yn canu nac yn gwrando. Edrych ymlaen at fis Awst achos mae fy chwaer yn priodi a dw i'n forwyn briodas. Gobeithio bydd y tywydd yn braf.
Mae gwaith cartref Ffiseg gyda fi heno a dw i ddim yn deall y gwaith – lwcus bod gyda fi Lucy i ddod i'n tŷ ni i helpu, mae hi'n ffrind da. Gobeithio gorffen fy ngwaith cartref cyn wyth o'r gloch i mi gael gweld *Pobol y Cwm* – dw i wrth fy modd gyda operâu sebon.

Dydd Mercher
Marc da yn fy ngwaith cartref Ffiseg heddiw – diolch bod gyda fi ffrind da fel Lucy i helpu. Dim *Coronation Street* heno – mae pêl-droed ymlaen o hanner awr wedi saith tan ddeg o'r gloch. Diflas iawn – mae llawer gormod o bêl-droed ar y teledu.

Dydd Sadwrn
Phil, fy nghariad, yn cael parti pen-blwydd heno yn y Clwb Nos. Dau fand da yn perfformio heno – dw i'n edrych ymlaen at ddawnsio gyda Phil ond dw i ddim yn hoffi bod y bechgyn yn yfed llawer o lager – maen nhw'n gwneud pethau twp wedyn. Parti gwych yn gorffen am ddeuddeg o'r gloch. Diolch, dad am ddod i fy nôl i yn y car.

Dyddiadur James

Dydd Llun
Wedi cael penwythnos grêt – mam a fi wedi dod yn ail mewn cystadleuaeth hwylio ar Lyn y Bala. Wedi dysgu hwylio gyda mam. Diolch, mam. Dim ond rhaglenni dogfen ar y teledu – diflas iawn. Diolch byth fy mod i'n gallu mynd yn y car efo fy ffrindiau i'r clwb snwcer yn y dref. Diolch am lifft yn y car.

Dydd Mercher
Gwasanaeth yn y dosbarth gyda Miss Thomas heddiw – grêt bod pawb yn cymryd rhan a gwneud rhywbeth. Miss Thomas yn dweud bod yr ysgol yn dathlu ei bod hi'n ddau ddeg pump oed y flwyddyn nesa – yn trefnu cyngerdd gyda Duffy a Bryn Terfel. Pum gwaith cartref heno – pam bod athrawon bob amser yn rhoi gwaith cartref i ni pan mae fy hoff dîm rygbi yn chwarae ar y teledu? Dyna'r rhaglenni gorau o ddigon ar S4C.

Dydd Sadwrn
Mynd i'r clwb rygbi heno i ddathlu bod y clwb lleol wedi ennill y cwpan ieuenctid dan 18 oed.


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

(i) Ysgrifennwch **yn Gymraeg** beth mae Rhiannon a James yn ddweud yn eu dyddiaduron am y topigau canlynol.
*Write **in Welsh** what Rhiannon and James say in their diaries about the following topics.* [16]

Rhiannon

Ysgol – (i) Gwaith cartref – Problem? .................................................... [1]

(ii) Gwasanaeth ysgol – Diflas. Pam? .................................................... [1]

Teledu – (i) Hoffi .................................................... [1]

(ii) Ddim yn hoffi .................................................... [1]

Teulu – helpu. Sut? .................................................... [1]

Ffrindiau – helpu. Sut? .................................................... [1]

Dathlu – beth?

(i) .................................................... [1]

(ii) .................................................... [1]

James

Ysgol – (i) Gwaith cartref – Problem? .................................................... [1]

(ii) Gwasanaeth ysgol – Diddorol. Pam? .................................................... [1]

Teledu – (i) Hoffi .................................................... [1]

(ii) Ddim yn hoffi .................................................... [1]

Teulu – helpu. Sut? .................................................... [1]

Ffrindiau – helpu. Sut? .................................................... [1]

Dathlu – beth?

(i) .................................................... [1]

(ii) .................................................... [1]

4554
020003



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

**Trosodd.**
***Turn over.***

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

(ii) Ysgrifennwch **ddwy** frawddeg **yn Gymraeg**, yn dweud sut rydych chi'n debyg a/neu'n wahanol i Rhiannon a/neu James.
*Write **two** sentences **in Welsh**, saying how you are similar and/or different to Rhiannon and/or James.* [✓ = 4]

(a) ..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

(b) ..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

**2.** Ysgrifennwch erthygl **yn Gymraeg** ar y **3** topig isod, ar gyfer y Cylchgrawn Lingo.
*Write an article **in Welsh** on the **3** topics below, for the magazine Lingo.* [15 + ✓ = 15] = **[30]**

Soniwch am eich profiadau personol chi.
*Write about your personal experiences.*

(i) Bywyd ysgol – pethau da a'r pethau drwg.
*School life – the good and bad things.* [3]

(ii) Defnyddio technoleg – defnyddio'r cyfrifiadur, defnyddio ffonau symudol, unrhyw dechnoleg arall rydych chi'n defnyddio.
*Using technology – using the computer, using mobile phones, any other technology you use.* [5]

(iii) Amser Hamdden – pethau diddorol wnaethoch chi'n ddiweddar. (Ysgrifennwch yn yr Amser Gorffennol.)
*Leisure Time – the interesting things you have done lately. (Write in the Past Tense.)* [7]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

4554
020005



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

**Trosodd.**
***Turn over.***

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

www.xtrapapers.com



**3.** Darllenwch yr erthygl yma ac yna gwnewch y tasgau **yn Gymraeg**.
*Read this article and then complete the tasks* ***in Welsh****.* [16 + ✓ = 4] = **[20]**

**Cadw'n Iach.**

**Bwyta'n iach**.

Mae deiet da yn golygu eich bod yn bwyta amrywiaeth o'r bwydydd iawn er mwyn cael deiet iach. Felly, dylech chi fwyta o leiaf bump o ffrwythau a llysiau bob dydd. Gallwch fwyta bwyd iach fel salad, pysgod a reis brown fel rhan o'ch deiet, ond mae'n bwysig i beidio bwyta bwyd parod (fel byrgyrs a pitsa) bob dydd. Mae'n bwysig hefyd i gofio bod rhoi gormod o halen ar eich bwyd yn ddrwg i chi. Cofiwch fod cael amrywiaeth o fwyd yn beth da.

**Bwyta brecwast a bwyta rhwng brecwast a chinio**.

Mae bwyta pethau fel creision a siocled rhwng prydau yn beth drwg iawn. Os ydych chi'n teimlo eich bod eisiau bwyd cyn cinio mae'n llawer gwell bwyta pethau fel ffrwythau neu gnau achos mae'r braster a'r siwgr ynddyn nhw yn well i chi. Hefyd cofiwch ei bod hi'n bwysig iawn bwyta brecwast da bob bore cyn mynd i'r ysgol neu i'r gwaith. Mae bwyta powlenaid o uwd neu rawnffrwyth yn eich cadw chi i fynd yn iawn tan amser cinio.

**Cadw'n heini**.

Mae cadw'n heini yn bwysig iawn i bawb – plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae cadw'n heini'n golygu bod eich cymalau a'ch organau'n gweithio'n iawn a hefyd mae'n helpu i gadw eich pwysau'n iach. Mae hefyd yn eich helpu i deimlo'n hapus a hyderus.

**Ymarfer corff**.

Dylai pobl ifanc dan 18 oed wneud tua 60 munud o ymarfer bob dydd. Ond does dim rhaid i chi fynd i'r gampfa i wneud hyn. Rydych chi'n gallu cerdded neu mynd ar y beic i'r gwaith neu i'r ysgol yn lle mynd ar y bws. Cofiwch ei bod hi'n fwy o hwyl cadw'n heini a gwneud ymarfer corff gyda ffrindiau ac wedyn rydych chi'n gallu ymuno â thîm pêl-rwyd neu dîm rygbi neu bêl-droed yn eich ardal chi.

**Ymateb Bronwen a Kevin**.

Mae Bronwen Levin yn aelod o dîm hoci a phêl-rwyd y clwb ieuenctid. 'Dw i wrth fy modd yn gwneud chwaraeon,' dywedodd Bronwen, 'ond mae'n gas gen i fwyta brecwast yn y bore. Fel arfer rydw i'n codi tua chwarter i wyth ac yn cael paned o goffi cyn dal y bws pum munud wedi wyth i'r ysgol. Erbyn amser egwyl am un ar ddeg o'r gloch rydw i eisiau bwyd ac fel arfer rydw i a fy ffrindiau yn cael Mars bar i'n cadw ni i fynd tan amser cinio'.

'Fy hoff bryd o fwyd ydy brecwast,' meddai Kevin Parry, 'bob bore rydw i'n cael powlenaid o rawnffrwyth, tost a marmalêd a diod o sudd afal'. Rydw i'n byw tua milltir o'r ysgol ac mae mam yn mynd â fi i'r ysgol yn y car. Mae'n gas gyda fi'r wers ymarfer corff a chwarae rygbi'n arbennig achos dydw i ddim mor ffit â'r bechgyn eraill'.



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (4554-02)

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

Ar ôl darllen yr erthygl 'Cadw'n Iach', ysgrifennwch **yn Gymraeg**: [12]
*After reading the article 'Cadw'n Iach', write **in Welsh**.*

**1.** (i) **2** fath o fwyd ddylech chi fwyta bob dydd.

- .................................................................................................... [1]
- .................................................................................................... [1]

(ii) **2** beth sy'n bwysig i beidio bwyta gormod ohono.

- .................................................................................................... [1]
- .................................................................................................... [1]

**2.** (i) Pa fwyd sy'n dda i frecwast?

- .................................................................................................... [1]

(ii) Pam?

- .................................................................................................... [1]

**3.** (i) Beth ddylech chi fwyta os ydych chi eisiau bwyd rhwng prydau?

- .................................................................................................... [1]

(ii) Pam?

- .................................................................................................... [1]

**4.** Ar ôl darllen y paragraff 'Cadw'n heini', ysgrifennwch **ddau** bwynt am sut mae cadw'n heini yn helpu pobl o bob oed.
Helpu i:

(i) • .................................................................................................... [2]

(ii) • .................................................................................................... [2]

**5.** Ar ôl darllen yr erthygl 'Cadw'n Iach' eto, ysgrifennwch **ddwy frawddeg** yn dweud:
[4 + ✓ = 4] = **[8]**

(i) Beth ddylai Bronwen wneud er mwyn bod yn fwy iach? Pam?

....................................................................................................

....................................................................................................

(ii) Beth ddylai Kevin wneud er mwyn bod yn fwy iach? Pam?

....................................................................................................

....................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

**4.** Ysgrifennwch lythyr **yn Gymraeg** at eich Papur Bro yn rhoi eich syniadau chi am **un** o'r canlynol (tua 150 o eiriau).
*Write a letter **in Welsh** to your 'Papur Bro' giving your ideas on **one** of the following (about 150 words).*

[15 + ✓ = 15] = **[30]**

(i) Sut i helpu a gwella'r amgylchedd yn eich ysgol a'ch ardal chi.
*How to help and improve the environment in your school and your area.*

(ii) Sut i wella cyfleusterau amser hamdden i blant a phobl ifanc yn eich ardal chi.
*How to improve leisure facilities for children and young people in your area.*

(iii) Sut i gael llai o blant a phobl ifanc i ysmygu ac yfed alcohol yn eich ardal chi.
*How to reduce the number of children and young people who smoke and drink alcohol in your area.*

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig
*Examiner only*

**DIWEDD Y PAPUR**
**END OF PAPER**



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 